

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig::	Polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Cymru
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Helen Scaife
Adran:	Yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Andrew Clark
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol oes
Dyddiad Dechrau:	20 Tachwedd 2018

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) diwygiedig ar gyfer Cymru.

Cyhoeddwyd y polisi cyntaf yn 2014, gan roi statws cyfartal i ESOL, o safbwynt cyllid, â Sgiliau Hanfodol eraill – gan gynnwys rhifedd a llythrennedd. O ganlyniad, mae gan ddysgwyr yng Nghymru hawl i fynychu dosbarthiadau ESOL am ddim hyd at ac yn cynnwys Lefel 1.

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghymru o'r enw "*Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun*". Yn y ddogfen hon, pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd sicrhau bod gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches fynediad i ddarpariaeth ESOL, gan argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Gweithredu yn nodi sut oedd yn bwriadu diwallu anghenion dysgwyr ESOL yng Nghymru. Mewn ymateb, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddiweddarau'r Polisi ESOL ar gyfer Cymru er mwyn adlewyrchu'r newidiadau niferus sydd wedi digwydd yn y sector dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r Polisi ESOL diwygiedig ar gyfer Cymru yn ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu ESOL. Mae'n myfyrio ar y newidiadau cyson sydd i'w gweld yn y maes hwn, ac mae'n cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n amlygu'r mathau gwahanol o ESOL sydd ar gael, a'r dysgwyr amrywiol sydd wedi gwella eu bywydau trwy fanteisio ar ddarpariaeth ESOL.

Hefyd, mae'r polisi yn ystyried sut rydym yn gweithio i helpu dysgwyr ESOL i gael gwaith, integreiddio yn eu cymunedau a chefnogi eu hiechyd a'u llesiant hirdymor. Mae gwella sgiliau cyfathrebu yn hanfodol i gefnogi cydlyniant ac integreiddio cymunedol.

Mae gan y polisi hwn gysylltiad agos iawn â pholisi a chynigion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghymru.

Yn ogystal, mae'r polisi yn myfyrio ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu mynediad i'r iaith Gymraeg ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac mae'n amlygu'r manteision a'r heriau sy'n wynebu mudwyr wrth ymgartrefu mewn gwlad ddwyieithog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector wrth ddrafftio'r polisi hwn, ac mae'n ddiolchgar am eu cymorth wrth ddarparu astudiaethau achos sy'n dangos effaith wirioneddol y ddarpariaeth hon, ac wrth grynhoi camau gweithredu i sicrhau ein bod yn datblygu'r ddarpariaeth hollbwysig hon mewn ffordd gadarnhaol a chynaliadwy.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector wrth ddatblygu'r diweddariad hwn i'r polisi. Mae'r darparwyr hyn yn gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr ESOL naill ai fel darparwyr neu i'w cynorthwyo. Mae hyn wedi cynnwys cyfuniad o gyfarfodydd un i un, trafodaethau grŵp, a grŵp llywio e-bost.

Mae sefydliadau sydd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lunio'r polisi hwn yn cynnwys:

- Sefydliadau Addysg Bellach
- Awdurdodau Lleol
- REACH (Canolfan Ganolig Asesu ESOL Rhanbarthol) Caerdydd
- Sefydliadau Trydydd Sector (gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Oasis, ac ACE)
- Canolfan Byd Gwaith
- Y Swyddfa Gartref
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Effaith fwyaf arwyddocaol y polisi hwn yw'r ffaith ei fod yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu ESOL am ddim i ddysgwyr sydd angen cymorth i ddysgu Saesneg. Diolch i'r polisi hwn, mae gan ddysgwyr o bob math, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, fynediad am ddim i ddarpariaeth ESOL er mwyn eu helpu i integreiddio ac ymgartrefu yng Nghymru.

Hefyd, mae'r polisi yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chefnogi darpariaeth iaith Gymraeg, ac mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy yn y maes hwn i wella mynediad i ddsbarthiadau Cymraeg ar gyfer dysgwyr.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r polisi yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl agored i niwed i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i integreiddio, ymgartrefu a gweithio yn ein cymunedau. Nodir bod mynediad i sgiliau iaith yn cael effaith hanfodol ar iechyd a llesiant unigolyn – mae'n hwyluso lefel uwch o annibyniaeth a hyder, ac yn gwella mynediad i waith.

Mae llawer o dystiolaeth ar gael yn ymwneud â manteision economaidd a chymdeithasol darparu ESOL.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Mae ansawdd holl ddarpariaeth ESOL a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau a'i fonitro trwy'r prosesau monitro safonol sydd ar waith ar gyfer darpariaeth Addysg Bellach o bob math.